

Canolfan Ddinesig/Civic Centre
Casnewydd/Newport
De Cymru/South Wales
NP20 4UR



E-Bost/E-Mail gwasanaethau.democrataidd@casnewydd.gov.uk

10 Hydref 2025

Hysbysiad o Ymgynghoriad: Adolygiad o Ffiniau Cymunedau a Threfniadau Etholiadol

Parthed: Ymgynghoriad — Adolygiad o Ffiniau Cymunedol a Threfniadau Etholiadol

Ysgrifennwn i'ch hysbysu bod Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol ar draws prif ardal y cyngor, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Pwrpas yr adolygiad hwn yw sicrhau bod ffiniau ein cymunedau yn parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol, hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, a darparu trefniadau etholiadol teg a chadarn. Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal o dan adrannau 25 a 31 y Ddeddf a bydd yn mynd i'r afael â ffiniau cymunedol presennol ac unrhyw newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol, yn ogystal â newidiadau posibl yn absenoldeb newidiadau i ffiniau.

Dechreuodd yr adolygiad ym mis Medi 2025, gyda disgwyl i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ym mis Gorffennaf 2026. Bydd unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r broses yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2027.

Cwmpas yr Adolygiad

Bydd y Cyngor yn ystyried:

- A ddylid argymhell newidiadau i ffiniau cymunedol presennol
- Enwau cymunedau ac, lle bo'n berthnasol, wardiau cymunedol
- A oes angen newidiadau i drefniadau etholiadol cymunedau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rhannu cymunedau'n wardiau a nifer y cynghorwyr sy'n cynrychioli pob ardal

Ein hegwyddor arweiniol yw "ceisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus." Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn trefniadau sy'n gydlynol yn fewnol, sy'n adlewyrchu patrymau anheddiad a chyfathrebu, ac yn caniatáu ymgysylltiad ystyrion gan yr holl etholwyr yn eu cymunedau.

Y Broses Ymgynghori

Fel ymgynghorai statudol, gwahoddir eich sefydliad i gymryd rhan weithredol yn yr ymgynghoriad. Bydd yr adolygiad yn dechrau gyda chyfnod cyhoeddusrwydd cychwynnol, lle anogir yr holl bartion â diddordeb—gan gynnwys ymgynghoreion statudol—i gyflwyno sylwadau ac awgrymiadau. Gall y rhain

gynnwys cefnogaeth i'r trefniadau presennol, newidiadau arfaethedig, neu atebion amgen, ar yr amod eu bod yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth berthnasol a'u bod yn mynd i'r afael â'r materion dan sylw. Mae'r ymgynghoriad bellach yn rhedeg a daw i ben ar 23 Tachwedd 2025.

Yn dilyn y cam cychwynnol hwn, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Cynigion Drafft. Dilyniir hyn gan gyfnod ymgynghori ffurfiol, lle byddwch eto yn cael cyfle i ymateb a rhoi adborth ar y cynigion. Byddwn yn ysgrifennu atoch eto i'ch atgoffa o'r ail gyfnod o ymgynghori a fydd yn rhedeg rhwng 26 Ionawr a 22 Mawrth 2026. Bydd yr holl gyflwyniadau a ddaw i law yn cael eu hystyried yn llawn cyn i'r argymhellion terfynol gael eu gwneud i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

Sut i Gymryd Rhan

Bydd yr ymgynghoriadau ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn ystod y cyfnodau pan fyddant yn fyw. Mae'r dudalen ymgynghori i'w chael yma:

[Dweud eich dweud | Cyngor Dinas Casnewydd](#)

Er mwyn sicrhau bod eich sylwadau a'ch cyflwyniadau yn cael eu hystyried:

- Rhaid derbyn ymatebion erbyn 11:59 pm ar y dyddiad cau a nodir yn y deunydd cyhoeddedig ar gyfer pob cam o'r adolygiad.
- Rhaid i bob cyflwyniad gynnwys enw a chyfeiriad yr anfonwr. Ni dderbynnir cyflwyniadau di-enw.
- Dylai cyflwyniadau ddangos sut y byddai cynnal y status quo neu wneud newidiadau yn ddymunol ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Sylwch y bydd yr adolygiad, ac unrhyw gynigion, yn ymwneud â threfniadau cymunedol yn unig. Ni fydd ffiniau'r Senedd neu etholaethau Seneddol, dalgylchoedd ysgolion, a darpariaeth gwasanaeth gan y Cyngor yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon.

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwn yn cyfathrebu â'r holl ymgynghoreion statudol drwy gydol yr adolygiad, yn rhoi copïau o adroddiadau perthnasol yn y Ganolfan Ddinesig a nifer o leoliadau cyhoeddus eraill, ac yn cyhoeddi dogfennau ar wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cychwynnol neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â gwasanaethau.democrataidd@casnewydd.gov.uk

Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn fel ymgynghorai statudol ac yn eich annog i rannu eich barn fel rhan o'r broses bwysig hon i gymunedau Casnewydd.

Yn gywir,



Leanne Rowlands

Rheolwr Gwasanaethau Democratiaid ac Etholiadol / Democratic and Electoral Services Manager

Cyngor Dinas Casnewydd / Newport City Council